CÔR MEIBION
• CAERNARFON •

Mae Côr Meibion Caernarfon yn recriwtio aelodau newydd!

APÊL DAER AR DDECHRAU'R GAEAF:

Mae Côr Meibion Caernarfon yn awyddus i recriwtio aelodau newydd i'n helpu i gynnal un o nodweddion pwysicaf Gwlad y Gân, sef traddodiad y corau meibion.

Fel sawl côr meibion arall y dyddiau hyn, mae'r aelodau presennol yn heneiddio ac ni allwn barhau i ddiddanu cynulleidfaoedd heb ddenu gwaed newydd rheolaidd.

Apeliwn at y dynion yn eich plith i wirfoddoli peth o'u hamser i'n helpu i gynnal ein safonau uchel wrth i'r côr nesáu at ei 50 mlwyddiant. Dymunwn recriwtio aelodau o bob oed a phob llais, ond yn arbennig baswyr isaf a thenoriaid uchaf. Mae croeso i rai sy'n aelodau o gorau eraill ddod i ganu gyda Chôr Meibion Caernarfon hefyd.

Rydym yn ymarfer bob nos Fawrth yn Galeri, Caernarfon (7.45pm-9.45pm) dan arweiniad ein Cyfarwyddwr Cerdd, Delyth Humphreys a'n cyfeilydd Mona Meirion Richards.

Drwy ymuno â Chôr Meibion Caernarfon cewch gyfle

- i ddysgu caneuon hen a newydd – poblogaidd a thraddodiadol;
- i gymryd rhan mewn cyngherddau, tripiau a chystadlaethau diddorol;
- i wneud ffrindiau da;
- i gael profiadau diddorol a lot o hwyl.

Mae digon o gyfleoedd i gymdeithasu cyn ac ar ôl yr ymarferiadau.
Gorau oll os medrwch ddarllen cerddoriaeth, ond nid yw hynny'n hanfodol.

Ewch i'n gwefan www.cormeibioncaernarfon.org i ganfod llawer mwy.

Dewch draw i un o'n ymarferiadau yn Galeri. Cewch groeso cynnes a phob cymorth i benderfynu a ydych am ymaelodi neu beidio. Neu cysylltwch â:

Dafydd Les Hughes Ysgrifennydd, "Sarn", Y Clogwyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1HY Ffôn: 01286 677 404 ebost: dles@btinternet.com .